

2168

\*\*\*\*\*

**W'rth Glywed . . .**

**Cloch Ymadawol :**

. GAN .

**FRANCIS THOMAS**

*( Y Crythor Dall o Swydd Ceredigion ).*

GYDA NODIADAU GAN Y . . .

**Parch. R. J. JONES, M.A.**

ABERDAR.

1907

*Argraffwyd dros Gymdeithas Llên  
Dyffryn Teifi gan John D. Lewis,  
Gwasg Gomer, Llandyssul.*

© "Pr Ymofynydd,"  
Gorphenaf, 1906. . .

X105 249220

## WRTH GLYWED . . CLOCH YMADAWOL.

---

Clyw ! 'nghyfaill llon, y sw'n draw sydd  
Yn dadgan taith ryw enaid prudd ;  
Fe aeth, ni wyddom ; ond i ble ?  
A phodd mae'r Enaid noeth yn nhre ?

Mewn byd dirgelaidd, hyspys yw  
Yn unig i'r Anfeidrol Dduw,  
A farn eneidiau'n gyfiawn ddoeth  
I'r nefoedd wen neu uffern boeth.

Mor wan yw'r goleu i wel'd y byd  
Y brysiwn ato bawb o hyd ;  
Y Llyfr dirgel Duw a gloes,  
A dudew orchudd drosto rhoes.

Am nef ac uffern son a wnawn,  
Heb wybod eto'u dull yn iawn ;  
Trig yn y nef angylion Duw,  
Ac uffern gwlad anobaith yw.

Ond beth yw meddwl hyn o iaith ?  
Nis gwyddom cyn terfynu'n taith,  
O'u hanfodd rhaid i'r marwol lu  
Fyw'n ddieithr iawn i'r bydoedd fry.

'R awr hon mae'n ffrynd yn deg ei  
ddrych,  
Y nesa'n llefain, " Byddwch wych,  
Rwy'n marw." Ac yna wrth bob nod  
Darfyddant fyth ei chwyth a'i fod.

Er hwylio o ddyrys daith y byd,  
A soddi o'n gwydd dan Angau i gyd,  
Yn mhlith ysprydoedd cwyd ei ben,  
Mewn bydoedd pell yn entrych nen.

Yr enaid buan, 'sgatfydd, aeth  
Tu hwnt i'r haul filltiroedd maith,  
Ugeiniau fil (tra cyflym yw)  
Cyn oeri'r corff oedd gyneu'n fyw.

Er marw o'n cu gyfeillion gynt,  
O hyd ger llaw, pwy wyr nad ynt  
Tu hwnt i'r gnawdol len yn nghudd,  
Yn hedeg heibio nos a dydd ?

A ninau'n cwyno, heb wybod gwell,  
Maent wedi myn'd o'n clyw ni 'mhell ;  
Ysgatfydd gwyllo, er ein llwydd,  
Mewn cyrff awyraidd, yw eu swydd.

Er hyn ni ro'nt wybodaeth wiw  
O'r lle na'r modd y maent yn byw ;  
Er cofio faint oedd gynt eu bryd  
I wybod eitha'r bythol fyd.

Felpe baent rwym trwydynged gaeth,  
I gelu eu 'stad er gwell, er gwaeth ;  
Eu gwynfyd hir, neu 'u poenau prudd,  
Fel yma byddem fyw trwy ffydd.

Gadawaf, ynte, i'm Arglwydd gloi  
Ei ddirgel arfaeth, heb ymroi  
I geisio trwy ewyllys gref  
Ddynoethi'r peth a gelodd Ef.

Mae'n ddigon credu fod y Ne  
Yn anrhaethadwy ddisglaer le ;  
A'r sawl sy yma'n was i'r Ion  
Caiff yno ei foli â pheraidd don.

Ond O ! pa fydoedd mawrion fydd  
I'm golwg fry, pan elwy'n rhydd  
O'r corff, i'm llenwi â syndod llym !  
Duw, gwna hi'n olwg hapus im.'

Amen.

FRANCIS THOMAS,

*Y Crythor Dall o Swydd Ceredigion.*

---

MRI. GOL.—Credaf y bydd llawer  
o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD yn  
falch o'r cyfleusdra i ddarllen y pen-  
illion uchod er mwyn yr awdwr.  
Tafiant oleu newydd ar ei hanes.  
Dangosant fod ganddo, er yn ddall  
er yn saith mlwydd oed, ac o bosibl  
mewn amgylchiadau isel, gryn grap  
ar y Saesneg, gan mai math o led-  
gyfieithad yw'r llinellau o gân Dr.  
Stogden, yn dechreu

Hark ! my gay friend, that solemn  
toll  
Speaks the departure of a soul, &c.

Ychydig wyddis am hanes personol  
Francis Thomas, y Crythor dall o  
Geredigion. Nid oes sicrwydd brodor  
o ble oedd. Y dyb gyffredin yw mai

yn Llanwenog y cartrefai; ond gwelwn yn "Hanes Plwyf Llandyssul," fod Thomas Humphreys yn honi mai ar dir Glandwr yr oedd yn byw. Y mae'n sicr mai'r Parch. Dafydd Llwyd (1725-79) Llwynrhydowen oedd ei weinidog a'i athraw barddonol. Yn ei flynyddau diweddaf elai oddiamgylch y wlad, ci yn ei arwain, ac yn canu'r crwth er mwyn bywoliaeth. Dywed y Parch. D. Lloyd Isaac mewn llythyr yn "Seren Gomer" (1843, t. 114), mai ei daid, Sion Llwyd, oedd yn ysgrifenu iddo, a bod yn ei feddiant ef (D.L.I.) amryw o'i ganeuon—rhai wedi ymddangos trwy y wasg, ond y rhan fwyaf heb eu hargraffu. Gwelir darnau argraffedig yn "Eurgrawn" 1770, "Blodau Dyfed," "Diliau'r Awen," a cheir "Marwnad Flora," yr hon sydd yn trin ofergoelion ei ddydd mewn modd dyddorol yn YMOFYNYDD 1854, t. 20. Synwyd ni wrth ddarllen yn yr *History of Vaynor*," fod Mr. W. Morgan, ar sail llyfr a gyhoeddwyd yn 1825 gan John Davies (Brychan) yn priodoli'r Farwnad hon i Lewis Coedmeurig, a flodeuai tua dechreu'r 19 cant.

Mae canu'r "Gloch Ymadawiad" (*Passing Bell*, neu *Soul Bell*, fel y gelwid hi weithiau) yn hen ddefod.

Sonia Beda (672-735 O.C.) am dani, ac efe yw'r boreua' mor bell ag a wyddis, i wneuthur hyny. Rhoddir dau reswm dros y ddefod: (1) I rybuddio'r cymydogion fod marwol-aeth wedi cymeryd lle; (2) I awgrymu i bawb a'i clywai y dylai anfon gweddi dros enaid yr ymadawedig.

Fe wyr y darlennydd am yr hen ddywediad—"Nine *tailors* make a man," a thebyg ei fod wedi synu beth all fod yr ystyr. Tebyg ei fod wedi tarddu o'r arferiad hwn. Llygriad yw *tailor* am *teller*; ac un ystyr i *tell* yw rhifo. Mae'r bugail yn rhifo ei ddefaid yn Milton: "And every shepherd *tells his tale*, Under the hawthorn in the dale." Yn Dryden cawn, "Both number twice a day the milky dams, And once she takes the *tale* of all the lambs"; ac yn Keats darllenwn, "Numb were the Beadman's fingers while he *told* his rosary." Fe welir yr ystyr ond cofio mai un *teller* yw un *curiad*, ac yr oedd y cyhoedd yn gwybod pa un ai dyn neu ddynes neu blentyn oedd wedi marw wrth rif y curiadau—tri am blentyn, chwech am fenyw, naw am wryw. Nine *tellers* for a man. Y mae hyn yn fwy rhesymol na chredu y cymer naw *teiliwr* i wneuthur dyn.